# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

# 251(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(10 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth:

**David Rees (Aberafan)** Yn dilyn y sylwadau a wnaed gan gadeirydd grŵp Tata Sons, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau dyfodol cynhyrchu dur yng Nghymru ym Mhort Talbot? (TAQ374)

**Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd yn dilyn penderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ganslo llawdriniaethau cleifion mewnol ddydd Llun 6 Ionawr 2020 yn ysbytai Bronglais, Glangwili, ysbyty'r Tywysog Philip a Llwynhelyg? (TAQ375)

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Waith y Pwyllgor

(30 munud)

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Adfywio Cymunedol

(60 munud)

**NDM7221** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at fethiant rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

2. Yn cydnabod yr angen i gyflawni, yn ymarferol, dull cydgynhyrchiol o adfywio cymunedol, gyda chyfraniad y gymuned at gyd-gynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau lleol.

3. Yn cydnabod yr heriau penodol y mae trefi glan môr a threfi marchnad yn eu hwynebu gyda chyfraddau uwch o siopau gwag a lefelau uwch o amddifadedd nag mewn rhannau eraill o Gymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfeydd trefi glan môr a threfi marchnad i gefnogi'r gwaith o adfywio mewn cymunedau ledled Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r buddsoddiad o £800m i adfywio cymunedau a chanol trefi rhwng 2014 a 2022.

2. Yn nodi'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i fusnesau lleol mewn trefi ledled Cymru, gan gynnwys pecyn cynhwysfawr o ryddhad ardrethi annomestig, i roi sylw i eiddo gwag ar y stryd fawr.

3. Yn cydnabod rôl bwysig Ardaloedd Gwella Busnes wrth helpu busnesau a chymunedau i gydweithio i ddarparu atebion ar lawr gwlad a helpu i adfywio eu hardaloedd lleol.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 – Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at bolisïau budd-daliadau Llywodraeth y DU, yn enwedig Credyd Cynhwysol, sydd wedi cynyddu tlodi fel y nodwyd gan y Cenhedloedd Unedig yn Adroddiad y Rapporteur Arbennig ar dlodi eithafol a hawliau dynol.

Yn cydnabod effeithiau niweidiol llymder ar adfywio cymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi mentrau cymunedol i wrthdroi ei effeithiau.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyd-ddatblygu'r gwaith o adfywio'r stryd fawr a pholisi trafnidiaeth leol fel ffordd o wella adfywio cymunedol.

Y Cenhedloedd Unedig – Adroddiad y Rapporteur Arbennig ar dlodi eithafol a hawliau dynol – 23 Ebrill 2019

## 8 Dadl Plaid Cymru – Teuluoedd Incwm Isel

(60 munud)

**NDM7224 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno taliad o £35 yr wythnos i bob plentyn mewn teuluoedd incwm isel yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu'r degawd o gyni dan Lywodraeth y DU a'i rhaglen o ddiwygiadau lles, sydd wedi arwain at gynnydd mewn tlodi plant yng Nghymru.

2. Yn nodi'r mesurau gwerth £1bn y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod yn eu lle i helpu teuluoedd incwm isel a threchu tlodi.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7194** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Cymru Dairieithog: Y gwerth i Gymru o addysgu ieithoedd tramor modern.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2020